



Dirnad Economi Cymru  
Economic Intelligence Wales

# Dirnad Economi Cymru

## *Adroddiad blynyddol*

**Medi 2026**

|                                                                                                |           |
|------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Crynodeb</b>                                                                                | <b>3</b>  |
| <b>1. Cyflwyniad</b>                                                                           | <b>5</b>  |
| <b>2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol</b>                                   | <b>6</b>  |
| <b>3. Y darlun o BBaCh yng Nghymru a'r DU:</b><br>Amodau sy'n newid yn llunio'r galw am gyllid | <b>14</b> |
| <b>4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid</b>                                                  | <b>21</b> |
| <b>5. Casgliadau</b>                                                                           | <b>27</b> |
| <b>Atodiad 1: adnoddau dethol a ddiweddarir yn aml</b>                                         | <b>28</b> |
| <b>Atodiad 2: rhagolygon dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027</b>                          | <b>29</b> |

Mark Lang, Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd  
[mundaymc@cf.ac.uk](mailto:mundaymc@cf.ac.uk)

I gael rhagor o wybodaeth neu gyflwyno adborth a chynigion ymchwil,  
anfonwch e-bost at: [Dirnadeconomi@bancdatblygu.cymru](mailto:Dirnadeconomi@bancdatblygu.cymru)

*Mae'r SYG wedi cyngori ar lunio'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y  
safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynir ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ellice Way, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau sy'n cynnwys y blaenlythrennau DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sydd ym mherchnogaeth lwyf Gweinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr FCA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales plc) nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn adneuo gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc i'w weld yn [developmentbank.wales/cy](https://developmentbank.wales/cy).

Nid yw haf 2026 yn gweld lleddfu ar yr **ansicrwydd sy'n wynebu busnesau yn y DU a Chymru**. Er bod hyder busnesau rhyngwladol wedi gwella, mae hyn yn fregus o ystyried y tensiynau geo-wleidyddol parhaus. **Mae busnesau'r DU yn parhau i wynebu pwysau chwyddiant**.

Yng Nghymru, bu cyfnod o newid gyda llywodraeth newydd Plaid Cymru yn y Senedd, yn dilyn etholiad mis Mai 2026. Mae cynlluniau Plaid Cymru yn canolbwyntio ar **dyfu a chynnal busnesau sy'n eiddo i Gymru a chyda'r posibilrwydd o Asiantaeth Datblygu Genedlaethol newydd** y bydd ei gweithgareddau yn y dyfodol yn cynnwys sicrhau buddsoddiad newydd ond hefyd helpu cwmnïau Cymru i arloesi a masnachu.

Mae Plaid Cymru wedi datgan y **bydd twf cynhyrchiant yn flaenllaw ac yn ganolog** fel meincnod ar gyfer cynnydd economaidd. Bydd haneru'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU o fewn degawd yn allweddol i'r genhadaeth economaidd. Mae busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael eu hystyried yn ganolog i'r weledigaeth hon gan Lywodraeth newydd Cymru, nid yn unig fel asiantau ar gyfer twf cyflogaeth, ond fel asiantau ar gyfer arloesedd a thwf cynhyrchiant.

## Amodau economaidd

Diwygiodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (a adwaenir yn gryno fel yr IMF) yr amcanestyniad o'r twf byd-eang ar gyfer 2026 i lawr **0.2 pwynt canran i 3.1%**. Arhosodd yr amcanestyniad ar gyfer 2027 yn 3.2% oherwydd yr anwadalarwydd a'r ansicrwydd parhaus yn y farchnad fyd-eang.

Dangosodd data gan y SYG fod **chwyddiant** Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) dros ddeuddeg mis **yn y DU yn 2.8% ym mis Mai 2026, heb newid o'r deuddeg mis hyd at fis Ebrill 2026**. Daeth y cyfraniadau mwyaf at i fyny at gyfradd chwyddiant flynyddol CPI o drafnidiaeth. Y cyfraniadau mwyaf tuag at i lawr, a oedd yn gwrthbwyso hynny, oedd bwyd a diodydd di-alcohol.

Ym mis Mehefin 2026, **pleidleisiodd Banc Lloegr o blaid cadw'r Gyfradd Banc ar 3.75%** yn dilyn yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o'r gwrthdaro yn Iran, a phwysau chwyddiant canfyddedig yn y dyfodol.

**Yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026**, amcangyfrifwyd bod **cynnyrch domestig gros (GDP) y DU wedi cynyddu 0.7%**. Cafodd hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd yn y sector gwasanaethau mewn gwybodaeth a chyfathrebu (i fyny 1.7%), masnach gyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur (i fyny 1.2%), a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (i fyny 1.3%).

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2026, roedd **cyfanswm y swyddi gwag yn y DU wedi gostwng 31,000** o'i gymharu â lefel y flwyddyn flaenorol. Mae amcangyfrifon gan PAYE yn dangos gostyngiad yn nifer gweithwyr cyflog y DU ar gyfer mis Mai 2026 i 30.3m, gostyngiad o 119,000 o weithwyr o'i gymharu â mis Mai 2025. **Yng Nghymru, gwelwyd gostyngiad o 4,400 i 1.31m yn nifer y gweithwyr cyflog yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026**.

Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol ar dwf economaidd, er gwaethaf gostyngiadau ledled y DU a Chymru. **Cyfradd anweithgarwch economaidd y DU oedd 20.9%** yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2025. **Yng Nghymru**, y ffigur cymharol oedd **24.0%**.

Arhosodd **mynegai adeiladu Cymru** 23.7% yn is na lefel 2023 ar gyfer Cymru yn Ch4 2025, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU yn cyrraedd 0.3% yn uwch na lefelau 2023.

**Gostyngodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 0.5% i £19.12bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026**. Dros yr un cyfnod, bu gostyngiad yn nifer yr allforwyr yng Nghymru, gyda'r ffactorau hyn yn cyfuno i ychwanegu at bwysau ar gynhyrchiant a gweithgarwch economaidd.

**Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf cynnyrch domestig gros y DU yn 2026 oedd 0.9% ym mis Mehefin 2026**. Roedd hyn yr un fath â'r rhagolwg newydd cyfartalog a wnaed ym mis Mai 2026.

## Amodau economaidd newidiol yn llywio'r galw am gyllid

Yn ôl *Mynegai Busnesau Bach y DU* y Ffederasiwn Busnesau Bach, **gwelwyd cynydd bychan mewn hyder busnesau yn Ch1 2026, er ei fod yn parhau i fod yn isel ar -52.5**, a'r economi yn parhau i fod y prif bryder i fusnesau bach a chanolig.

Adroddodd y *Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig* fod **27% o fusnesau bach a chanolig y DU** (ac eithrio rhai sy'n cychwyn) **wedi tyfu dros y 12 mis diwethaf yn ystod Ch1 2026**, ychydig is na'r lefel a grybwyllwyd yn y chwarter blaenorol.

**Roedd nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru yn fwy na nifer y genedigaethau busnes yn ystod Ch1 2026.** Cyfanswm y genedigaethau busnes yng Nghymru yn Ch1 2026 oedd 2,505, tra bod nifer y marwolaethau busnesau yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,910.

Yn ôl *Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes* (BICS) y SYG ar gyfer 1 i 30 o fis Ebrill 2026 (ton 156), **roedd 34.9% o fusnesau Cymru yn disgwyl cynnydd yn eu perfformiad yn y flwyddyn i ddod** (31.5% yn y DU).

Dangosodd data SYG fod **prisiau tai wedi cynyddu 3.5% yng Nghymru yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2026**, a phris cyfartalog tŷ yng Nghymru ym mis Ebrill 2026 oedd £212,000.

**Cofrestrodd *Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu* S&P Global UK 38.2 mewn gweithgarwch adeiladu cyffredinol ym mis Mai 2026**, ymhell islaw'r marc 50.0 sy'n gwahaniaethu rhwng ehangu a chrebachu yn y mynegai hwn.

## Y cyflenwad a'r galw am gyllid

Adroddodd benthycwyr fod **argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach, canolig a mawr wedi cynyddu yn Ch1 2026.**

Adroddodd benthycwyr fod y galw am fenthycia o du busnesau bach a mawr wedi cynyddu ychydig ac nad oedd wedi newid o ran busnesau canolig yn Ch1 2026.

Adroddodd *UK Finance* fod **benthyciadau gros i gwmnïau bach yn Ch1 2026 wedi cynyddu 51% o gymharu â'r un cyfnod yn 2025**, tra bod benthycia i fusnesau canolig wedi cynyddu 4%.

Canfu'r *Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig* fod **50% o fusnesau bach a chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod Ch1 2026**. Cardiau credyd oedd y math mwyaf cyffredin o gyllid busnes o hyd.

**Y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig oedd 6.16% ym mis Ebrill 2026**, i fyny o 6.11% ym mis Mawrth 2026.

Dyma wythfed adroddiad blynyddol Dirnad Economi Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Yn adrannau 2-4 yr adroddiad hwn gwelir y cyd-destun macro-economaidd y mae busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn gweithredu ynddo, ac yna archwilir ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid i fusnesau bach a chanolig, ei gyflenwad a'i gost. Yn yr adran olaf ceir rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

I raddau helaeth, mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (sy'n destun adroddiad fesul blwyddyn calendr fel arfer). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd ychydig bach o anghysondeb amser yn y data yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd drafftio'r adroddiad hwn ar 6 Gorffennaf 2026.

**Yn ddiweddar, cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru yr adroddiad canlynol:**

[Cynllunio olyniaeth perchnogaeth busnes busnesau bach a chanolig](#)

Mae Dirnad Economi Cymru yn bwriadu cyhoeddi cyfres o allbynnau eraill yn ystod 2026-27, gan gynnwys adroddiadau ar:

- Arwyr cynhyrchiant yng Nghymru: pwy ydyn nhw a pham maen nhw'n bwysig.
- Mentrau a arweinir gan y gymuned yng Nghymru.
- Deall cyfleoedd amddiffyn yng Nghymru: Sut y gallwn ni gefnogi busnesau bach a chanolig Cymru yn well?
- Perfformiad masnach Cymru a dyfodol masnachu.

- Gyda'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol yn creu sioc yn y farchnad ynni ryngwladol yn dilyn cau Culfor Hormuz (llwybr ynni hanfodol), israddiwyd rhagolygon twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2026 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2026), 0.2 bwynt canran i 3.1%. Arhosodd amcanestyniad 2027 ar 3.2%.
- Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr i gynnal Cyfradd y Banc ar 3.75% ym mis Mehefin 2026.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) deuddeg mis yn y DU yn 2.8% ym mis Mai 2026, heb newid o'r deuddeg mis hyd at fis Ebrill 2026.
- Cynyddodd mynegai adeiladu Cymru 1.0% rhwng Ch3 2025 a Ch4 2025 ond arhosodd 23.7% yn is na lefel 2023 Cymru yn Ch4 2025. Roedd ffigur cymharol y DU 0.3% yn uwch na lefel 2023.
- Bu gostyngiad o 0.5% i £19.12 biliwn yng ngwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026 (o'i gymharu â gostyngiad o 10.4% yn yr Alban, a chynnydd o 0.2% yn Lloegr a 1.2% yng Ngogledd Iwerddon).

## Rhagolygon byd-eang

Ar ôl dechrau'r rhyfel yn y Dwyrain Canol yn niwedd mis Chwefror 2026, nododd *Rhagolwg Economaidd y Byd* y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2026<sup>1</sup>, fod y gwrthdaro yn bygwth "tarfu ar dwf a datchwyddiant" yr economi fyd-eang trwy ei sioc i "farchnadoedd nwyddau, disgwyliadau chwyddiant ac amodau ariannol". Mae'r adroddiad yn cynnwys rhagolygon twf sy'n rhagdybio y bydd "hyd, dwyster a chwmpas cyfyngedig" i'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. O dan y rhagdybiaethau hyn, rhagwelodd yr IMF dwf byd-eang o 3.1% yn 2026, wedi'i ddiwygio i lawr 0.2 pwynt canran o *Ddiweddariad Rhagolwg Economaidd y Byd*<sup>2</sup> yr IMF a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026. Roedd y rhagolygon ar gyfer 2027 yn ddigyfnewid, ar 3.2% ar gyfer 2027.

Mae'r IMF yn rhagweld mai 2.3% fydd twf yn yr Unol Daleithiau yn 2026, diwygiad i lawr o 0.1 pwynt canran o fis Ionawr, a rhagwelir mai 2.1% fydd twf yn 2027. Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer ardal yr Ewro yn awgrymu twf o 1.1% yn 2026 ac 1.2% yn 2027. Yn y DU, mae rhagamcan twf yr IMF yn 0.8% yn 2026, sef gostyngiad o 0.5 pwynt canran oherwydd y rhyfel rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran (ac yn benodol effaith prisiau ynni uwch) a chyflymder arafach o lacio ariannol. Disgwylir i dwf yn y DU fod yn 1.3% yn 2027, wedi'i ddiwygio i lawr 0.2 pwynt canran.

<sup>1</sup> <https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2026/04/14/world-economic-outlook-april-2026>

<sup>2</sup> <https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2026/01/19/world-economic-outlook-update-january-2026>

## Pwysau chwyddiant y DU

Yn ôl data a gyhoeddwyd gan y SYG, roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) deuddeg mis yn y DU yn 2.8% ym mis Mai 2026, heb newid o'r gyfradd dros y deuddeg mis hyd at fis Ebrill 2026.<sup>3</sup> Daeth y cyfraniadau mwyaf at i fyny at gyfradd chwyddiant flynyddol CPI o drafnidiaeth. Y cyfraniadau mwyaf tuag at i lawr, a oedd yn gwrthbwysu hynny, oedd bwyd a diodydd di-alcohol.

Gellir dadlau bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd yn ddangosydd gwell o'r graddau y mae chwyddiant yn parhau efallai i fod wedi'i ymgorffori yn yr economi, gan ei fod yn eithrio elfennau cyfnewidiol o'r CPI megis prisiau ynni a bwyd. Cynyddodd CPI Craidd 2.6% yn y deuddeg mis hyd at fis Mai 2026, tra bod y ffigur cymharol yn y deuddeg mis hyd at fis Ebrill 2026 yn 2.5%.<sup>4</sup>

Yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, cynyddodd prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât y ffatri) 4.0%, i lawr o'r cynnydd diwygiedig o 4.1% yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2026.<sup>5</sup> Daeth y cyfraniadau mwyaf tuag i fyny i'r gyfradd chwyddiant allbwn

flynyddol ym mis Mai 2026 o dri phrif ffactor. Yn gyntaf, cynyddodd prisiau allbynnau golosg a chynhyrchion petrolewm wedi'i fireinio 55.6% yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, o'i gymharu â chynnydd diwygiedig o 51.1% yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2026. Yn ail, cynyddodd allbynnau eraill o weithgynhyrchu 4.3% yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, o'i gymharu â 3.1% diwygiedig yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2026, wrth i brisiau olew fod yn uwch o ganlyniad i ryfel y Dwyrain Canol, gan gynyddu cost plastig a chynhyrchion plastig. Yn drydydd, cododd prisiau metelau sylfaenol, cynhyrchion metel wedi'i drawsnewid a pheiriannau 4.2% yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2026, sef cynnydd o'r 4.1% diwygiedig yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2026. Daeth y cyfraniad mwyaf tuag i lawr at y gyfradd chwyddiant allbwn blynyddol o allbynnau cerbydau modur ac offer trafnidiaeth eraill. Yma gostyngodd prisiau 1.7% yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, gan ostwng o gynnydd diwygiedig o 2.2% ym mis Ebrill.

## Banc Lloegr yn cadw'r Gyfradd Banc yn sefydlog ym mis Mehefin 2026

Cadwodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc ar 3.75% ym mis Mehefin 2026, gyda Llywodraethwr y Banc yn nodi "... beth bynnag sy'n digwydd yn y dyfodol, mae prisiau ynni uwch y pedwar mis diwethaf yn golygu bod yna eisoes rhywfaint o bwysau chwyddiant ar y gweill..."<sup>6</sup> Roedd y Crynodeb Polisi Ariannol ar gyfer mis Mehefin yn nodi, er bod prisiau ynni y tu hwnt i ddylanwad

uniongyrchol polisi ariannol, gall helpu i sicrhau bod yr economi yn addasu i siociau o'r fath mewn ffordd sy'n parhau i fod yn gyson â chyflawniad cynaliadwy yr amcan chwyddiant o 2%. Bydd y safiad priodol yn dibynnu ar faint a dyfalbarhad y sioc a pha mor eang y mae'n effeithio ar weithgarwch economaidd.<sup>7</sup>

<sup>3</sup> <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/may2026>

<sup>4</sup> <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/may2026>

<sup>5</sup> <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/may2026>

<sup>6</sup> <https://www.bbc.co.uk/news/articles/c33yzm5mdjpo>

<sup>7</sup> <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2026/june-2026>

## Cynnyrch Domestig Gros y DU wedi cynyddu yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026

O gymharu â'r tri mis hyd at fis Ionawr 2026, amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros (GDP) real y DU wedi cynyddu 0.7% yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026.<sup>8</sup>

Yn ôl sector, yr allbwn mewn gwasanaethau'r DU oedd cyfrannwr mwyaf at y cynnydd mewn cynnyrch domestig gros yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026. Cynyddodd allbwn mewn gwasanaethau'r DU 0.8% yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026, yn dilyn yr un gyfradd twf yn y tri mis hyd at fis Mawrth 2026. Y cyfranwyr cadarnhaol mwyaf at allbwn gwasanaethau yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026 oedd gwybodaeth a chyfathrebu (cynnydd o 1.7%), gyda'r SYG yn nodi bod hyn wedi'i yrru'n bennaf gan dwf mewn rhaglennu cyfrifiadurol, ymgynghori a gweithgareddau cysylltiedig, a thwf mewn gweithgareddau cyhoeddi, masnach gyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur (cynnydd o 1.2%), a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (cynnydd o 1.3%) - gyda'r olaf yn cael ei yrru gan dwf mewn hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad, yn ogystal â gweithgareddau pencadlysoedd; gweithgareddau ymgynghoriaeth rheoli. Y cyfrannwr negyddol mwyaf at allbwn mewn gwasanaethau oedd y celfyddydau, adloniant a

hamdden (gostyngiad o 0.5%) oherwydd gostyngiad mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau difyrrwch a hamdden.

Amcangyfrifir bod allbwn yn sector cynhyrchu'r DU wedi tyfu 0.1% yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026 o gymharu â'r tri mis hyd at fis Ionawr 2026. Gyrrwyd y crebachiad yn y sector cynhyrchu gan ostyngiadau mewn cyflenwad trydan, nwy, stêm ac aerdymheru (gostyngiad o 2.4%), cyflenwad dŵr; gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer (gostyngiad o 1.0%), a mwngloddio a chwarela (gostyngiad o 0.8%). Roedd twf mewn gweithgynhyrchu, o 0.6% yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2026, yn gwrthbwysu'n rhannol y gostyngiadau hyn mewn allbwn - gyda'r cyfranwyr cadarnhaol mwyaf at dwf gweithgynhyrchu yn gweithgynhyrchu cynhyrchion fferyllol sylfaenol a pharatoadau fferyllol (cynnydd o 2.2%), gweithgynhyrchu cynhyrchion cyfrifiadurol, electronig ac optegol (cynnydd o 2.9%), a gweithgynhyrchu a thrwsio eraill (cynnydd o 2.3%).

Mae amcangyfrifon misol cynnyrch domestig gros y DU yn dangos bod gostyngiad o 0.1% wedi bod ym mis Ebrill 2026. Roedd hyn yn dilyn twf o 0.3% ym mis Mawrth 2026 a 0.4% ym mis Chwefror 2026.

## Gostyngodd buddsoddiad busnes y DU yn chwarter 1 2026

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y SYG<sup>9</sup>, bu cynnydd o 0.9% ym muddsoddiad busnes y DU yn Ch 1 2026 (mis Ionawr i fis Mawrth). Roedd hyn 1.3% yn is na lefel Ch1 2025.

<sup>8</sup> <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/april2026>

<sup>9</sup> Buddsoddiad busnes yn y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Nifer swyddi gwag y DU yn parhau i ostwng

Fel y nodwyd mewn adroddiadau Dirnad Economi Cymru blaenorol, mae'r gostyngiad mewn swyddi gwag yn y DU yn ystod y misoedd diwethaf wedi'i gysylltu â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2025, gan ychwanegu at gostau cynyddol i gyflogwyr, a chyfyngiadau recriwtio cysylltiedig.<sup>10</sup> Yr amcangyfrif o nifer y swyddi gwag yn y DU yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2026 a mis Mai 2026 oedd 707,000 – sef gostyngiad o 19,000 o'r chwarter blaenorol (mis Rhagfyr 2025 i fis Chwefror 2026).<sup>11</sup>

O fis Mawrth i fis Mai 2026, roedd cyfanswm y swyddi gwag wedi gostwng 31,000 (4.2%) o lefel y flwyddyn flaenorol ac roeddent 82,000 (10.4%) yn is na'u lefel cyn-bandemig COVID-19 rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Roedd y gostyngiadau mwyaf mewn swyddi gwag rhwng mis Mawrth a mis Mai 2026 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol mewn gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (gostyngiad o 8,000 o swyddi gwag), gwasanaethau bwyd a llety (i lawr 4,000) a'r sector celfyddydau, adloniant a hamdden (i lawr 4,000 hefyd). Nododd y SYG fod adborth eu Harolwg Swyddi Gwag "... yn awgrymu nad yw rhai cwmnïau yn recriwtio efallai oherwydd ansicrwydd economaidd a chostau llafur cynyddol...".<sup>12</sup>

Mae amcangyfrifon cynnar Gwybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill<sup>13</sup> yn datgelu gostyngiad yn nifer gweithwyr cyflogres y DU ar gyfer mis Mai 2026 i 30.3 miliwn, sef gostyngiad o 119,000 o

weithwyr cyflogedig (neu 0.4%) o gymharu â'r ffigur ar gyfer mis Mai 2025. Yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, roedd cynnydd mwyaf gweithwyr cyflogres y DU i'w weld yn y sector gwasanaethau cymorth a gweinyddol (gweithwyr yn cynyddu 34,000 neu 1.4%), tra bod y gostyngiad mwyaf yn y sector gwasanaethau bwyd a llety (gostyngiad o 80,000 o weithwyr).<sup>14</sup> Rhwng mis Mai 2025 a mis Mai 2026 cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer y gweithwyr cyflogres mewn amrywiaeth o sectorau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu, cyfanwerthu a manwerthu, gweithgareddau gwasanaeth bwyd a llety, gwybodaeth a chyfathrebu, a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

Yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogres yng Nghymru 4,400 (neu -0.3%) i 1.31m.<sup>15</sup> Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogres yn ôl sector yn cael ei ddiweddarau'n llai aml, ond dengys y data ar gyfer mis Ebrill 2026 fod y gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogres yng Nghymru dros y flwyddyn ar ei amlycaf ym maes gweithgynhyrchu (gostyngiad o 3,400 o weithwyr cyflogedig neu -2.8%), gwasanaethau bwyd a llety (gostyngiad o 3,100, neu -3.3%) a chyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 3,000, neu -1.7%).<sup>16</sup> Felly, roedd gwendid mewn amodau cyflogaeth ar draws economi Cymru yn parhau i fod yn amlwg mewn sectorau sy'n wynebu defnyddwyr ac sy'n sensitif i gostau.

<sup>10</sup> <https://www.theguardian.com/business/2026/feb/23/uk-job-vacancies-fall-to-lowest-level-since-pandemic>

<sup>11</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/june2026>

<sup>12</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/june2026>

<sup>13</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/june2026>

<sup>14</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

<sup>15</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

<sup>16</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

## Cyfraddau diweithdra y DU a Chymru

Ar adeg ysgrifennu, roedd y data diweithdra diweddaraf sydd ar gael o'r Arolwg Poblogaeth Blynnyddol (APS) ar gyfer y cyfnod deuddeg mis hyd at fis Rhagfyr 2025 (oherwydd materion ansawdd data parhaus Arolwg Llafurlu y SYG, data APS a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn).

Yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2025, amcangyfrifwyd bod cyfradd diweithdra'r DU (pawb 16+ oed) yn 4.4%<sup>17</sup>. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.6 pwynt canran o'r ffigur ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2024.

Roedd cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf y DU yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025 yn Llundain (6.1%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (5.7%), Swydd Efrog a'r Humber (4.6%), a Gogledd Ddwyrain Lloegr (4.6%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (2.1%), De-orllewin Lloegr (3.2%), De-ddwyrain Lloegr (3.6%), a'r Alban (3.7%). Yng Nghymru, roedd cyfradd diweithdra y cyfnod o ddeuddeg mis hyd at fis Rhagfyr 2025 yn 4.5%, sy'n cynrychioli cynnydd o 1.2 pwynt canran o'r gyfradd diweithdra yn ystod y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024.

## Mae cynnydd yn nifer hawlwr budd-dal diweithdra y DU a Chymru

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mai 2026, cynyddodd nifer hawlwr budd-daliadau diweithdra y DU (heb ei addasu'n dymhorol) 18,000 i 1.71m o bobl.<sup>18</sup>

Yng Nghymru, hawliodd 65,690 o bobl fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Ebrill 2026 (sy'n cyfateb i 3.4% o'r boblogaeth breswyl rhwng 16 a 64 oed, heb ei addasu'n dymhorol, o gymharu â ffigur o 3.9% ar gyfer y DU), sef cynnydd o 1,175 yn nifer yr hawlwr o gymharu â mis Ebrill 2025.<sup>19</sup> Dylid nodi bod y gwerthoedd ar gyfer mis Ebrill 2026 yn rhai dros dro ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn ôl y data ar gyfer mis Ebrill 2026, yr awdurdodau unedol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra oedd Casnewydd (4.6%), Caerdydd (3.9%), Blaenau Gwent (3.9%), Conwy (3.8%), Torfaen (3.7%), Sir Ddinbych (3.7%) ac Ynys Môn (3.7% hefyd), a'r rhai â'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.4%), Powys (2.7%), Ceredigion (2.8%), Sir Gaerfyrddin (2.9%), Gwynedd (3.0%), Sir y Fflint (3.0%), Wrecsam (3.0%) a Phen-y-bont ar Ogwr (3.0%).

<sup>17</sup> SYG, Arolwg Poblogaeth Blynnyddol, <https://www.nomisweb.co.uk/>

<sup>18</sup> <https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/outofworkbenefits/datasets/claimantcountcla01>

<sup>19</sup> <https://stats.llyw.cymru/cy-GB/64d58bef-c97c-4413-8aed-2298eac3a419>

## Parhaodd anweithgarwch economaidd i ostwng yn y DU a Chymru

Er gwaethaf y gostyngiadau diweddar, mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn uwch yng Nghymru na chyfartaledd y DU, gan gyfyngu'r cyflenwad llafur sydd ar gael. Cyfradd anweithgarwch y DU (rhwng 16 a 64 oed) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025 oedd 20.9% yn ôl data Arolwg Poblogaeth

Blynnyddol y SYG<sup>20</sup>, sef gostyngiad o 0.8 pwynt canran o'i gymharu â blwyddyn yn flaenorol (mis Ionawr 2024 i fis Rhagfyr 2024). Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 24.0% yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025, i lawr 0.7 pwynt canran o'r ffigur yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024.

## Ychydig o gynnydd yn allbwn diwydiant adeiladu Cymru o Ch3 2025 i Ch4 2025

Mae Ffigur 2.1 yn dangos mynegeion cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau marchnad Cymru, ar gyfer Ch4 2022 i Ch4 2025. Roedd mynegai cynhyrchu Cymru yn Ch4 2025 3.0% yn is na lefel 2023, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU 1.6% yn is na lefel 2023. Roedd gostyngiad allbwn yn ystod diwedd 2024 a dechrau 2025 yn Tata Steel yn ne Cymru yn ffactor sy'n cyfrannu'n negyddol ar y mynegai cynhyrchu.

Cynyddodd mynegai adeiladu Cymru 1.0% rhwng Ch3 2025 a Ch4 2025 ond arhosodd 23.7% yn is na lefel 2023 Cymru yn Ch4 2025. Roedd ffigur cymharol y DU 0.3% yn uwch na lefel 2023. Yn flaenorol, gwelodd mynegai adeiladu Cymru gyfnod o dwf sylweddol yn 2022 a 2023 oherwydd bod nifer o brosiectau adeiladu mawr yn digwydd yn y rhanbarth.

Arhosodd mynegai gwasanaethau marchnad Cymru yn weddol sefydlog dros y cyfnod a ddadansoddwyd, gan fod 2.4% yn uwch na lefel 2023 erbyn Ch4 2025. Cyrhaeddodd ffigur cymharol y DU 2.6% yn uwch na lefel 2023.


Nododd yr adroddiad *Bank of England Agents' Summary of Business Conditions*<sup>21</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2026, fod cwmnïau adeiladu seilwaith y DU yn parhau i fod yn brysur ar brosiectau mawr megis ynni, dŵr, telathrebu, a chanolfannau data, ac yn gyffredinol yn adrodd llif prosiect iach. Fodd bynnag, roedd datblygiadau preswyl yn cael eu hystyried yn arbennig o wan, gan adlewyrchu heriau wrth werthu eiddo wedi'u cwblhau. Ar ben hynny, roedd disgwyl i bryderon am ansicrwydd gwleidyddol domestig bwyso ar wariant cyhoeddus yn y tymor byr.

<sup>20</sup> SYG, Arolwg Poblogaeth Blynnyddol, <https://www.nomisweb.co.uk/>

<sup>21</sup> <https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2026/june-2026>

**Ffigur 2.1.**

*Mynegeion allbwn Cymru: tuedd Ch4 2022 – Ch4 2025 (2023=100)*



**Ffynhonnell:** Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2023=100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau'r Farchnad (2023=100) yn ôl blwyddyn ac ardal.

## Gostyngiad yng ngwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru yn ystod y flwyddyn hyd at Ch1 2026

Mae'r SYG yn cynghori cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli data masnach gan fod ffigurau fel arfer yn cael eu cyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu enwol (sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant).

Mae data masnach mewn nwyddau rhanbarthau'r DU yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng ngwerth allforion o Gymru a'r Alban, ond cynnydd yng ngwerth allforion o Loegr a Gogledd Iwerddon yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026 o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.<sup>22</sup> Gostyngodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 0.5% i £19.12bn yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 10.4% yng ngwerth nwyddau a allforiwyd o'r Alban, sy'n adlewyrchu gostyngiad yng ngwerth allforion tanwydd mwynol, a chynnydd o 0.2%

yng ngwerth nwyddau a allforiwyd yn Lloegr ac 1.2% yng Ngogledd Iwerddon.

Gostyngodd cyfanswm gwerthoedd allforio nwyddau yng Nghymru mewn nifer o gategorïau cynnyrch dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026.<sup>23</sup> Gostyngodd gwerth cemegau a chynhyrchion cysylltiedig i £2.22bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch 1 2026 o £2.29bn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 2.8%. Gostyngodd gwerth nwyddau a weithgynhyrchir wedi'u dosbarthu'n bennaf yn ôl deunydd i £2.17 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch1 2026, o £2.48 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, sef gostyngiad o 12.7%. Fodd bynnag, cynyddodd gwerth allforio peiriannau ac offer trafndiaeth i £9.39 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch1 2026, o £9.13 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, sef cynnydd o 2.8%.

<sup>22</sup> <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2026/uk-regional-trade-in-goods-statistics-first-quarter-2026/>

<sup>23</sup> <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

Cyfanswm cyfrif allforwyr Cymru yn Ch1 2026 oedd 3,025, gostyngiad o 1.8% o Ch1 2025 pan oedd y ffigur yn 3,079 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan).<sup>24</sup> Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad o 3.1% ar gyfer y DU gyfan.<sup>25</sup> Dangosodd data maint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch1 2026 fod crynswth net o 7.58 biliwn cilogram wedi'i allforio o Gymru, sef gostyngiad o 0.6% o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.<sup>26</sup>

Mae'r data ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol yn tynnu sylw at fregusrwydd parhaus economi Cymru i newidiadau yn y galw byd-eang ac amodau masnach. Dros y flwyddyn hyd at Ch1 2026, gostyngodd cyfanswm gwerth allforio cynnyrch Cymru i'r Unol Daleithiau i £2.75bn, o £2.86bn yn y deuddeg mis blaenorol, sef gostyngiad o 4.0%.<sup>27</sup> Er gwaethaf hyn, parhaodd yr Unol Daleithiau i fod y brif wlad oedd yn gyrchfan (yn ôl gwerth) ar gyfer allforion o Gymru.

Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026, gostyngodd gwerth y nwyddau a fewnforiwyd i Gymru 4.4% i £20.40bn o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Mae hyn o'i gymharu â 5.0% o gynnydd yng ngwerth mewnforion yn yr Alban, 3.6% yn Lloegr, a 2.1% yng Ngogledd Iwerddon.<sup>28</sup>

Yng Nghymru, cyfanswm y cyfrif mewnforwyr yn Ch1 2026 oedd 7,619, sef 6.5% o ostyngiad o'i gymharu â'r ffigur yn Ch1 2025. Yn y DU cynyddodd cyfanswm y cyfrif mewnforwyr 3.5% dros yr un cyfnod.<sup>29</sup> Dangosodd data maint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch1 2026 fod crynswth net o 16.26 biliwn cilogram wedi'i allforio i Gymru, sef 1.5% o gynnydd o'r flwyddyn flaenorol hyd at ddiwedd Ch1 2025.<sup>30</sup>

## Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o'r rhagolygon annibynnol a gafwyd rhwng 1 a 12 Mehefin 2026 yn Rhagolygon Trysorlys EF ar gyfer Economi'r DU ym mis Mehefin 2026.<sup>31</sup> Cyfartaledd y rhagolygon newydd ar gyfer twf cynnyrch domestig gros y DU yn 2026 oedd 0.9%, dim newid o'r hyn a flaenamcanwyd gan gyfartaledd y rhagolygon newydd yng nghyhoeddiad Mai 2026.<sup>32</sup>

Dengys Atodiad 2 yr adroddiad hwn grynodeb o ragolygon cynnyrch domestig gros dethol ar gyfer y DU ar gyfer 2026 a 2027, ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfradd Diweithdra LFS, a'r twf mewn prisiau ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), a Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

<sup>24</sup> "Dull rhif cyfan": Mae busnes yn cyfrif fel 1 ym mhob rhanbarth lle mae ganddo weithwyr.

<sup>25</sup> <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/#datasets>

<sup>26</sup> <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol>

<sup>27</sup> <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol>

<sup>28</sup> <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/>

<sup>29</sup> <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/#datasets>

<sup>30</sup> <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

<sup>31</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-june-2026>

<sup>32</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-may-2026>

- Roedd hyder busnesau bach y DU yn parhau i fod yn isel iawn yn Ch1 2026.
- Crybwyllodd 27% o fusnesau bach a chanolig y DU dwf yn y 12 mis diwethaf yn ystod Ch1 2026.
- Roedd nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru yn fwy na nifer y genedigaethau busnes yn ystod Ch1 2026.
- Mae gweithgarwch adeiladu'r DU yn parhau i fod yn wan


### Roedd hyder busnesau bach y DU yn parhau i fod yn isel iawn yn Ch1 2026

Cofnododd Mynegai Busnesau Bach y DU (MBB) y Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)<sup>33</sup> welliant bach mewn teimlad busnes yn ystod

chwarter cyntaf 2026, er ei fod yn parhau i fod yn isel iawn -52.5<sup>34</sup>. Dengys Ffigur 3.1 duedd MBB y FfBB rhwng Ch1 2024 a Ch1 2026.

#### Ffigur 3.1.

##### Mynegai Hyder Busnesau Bach y DU, Ch1 2024 – Ch1 2026



Ffynhonnell: Mynegai Busnesau Bach FfBB<sup>35</sup>

Ymddengys bod nifer y busnesau bach sy'n adrodd twf referniw i arolwg FfBB hefyd yn dangos rhywfaint o welliant cymedrol yn Ch1 2026. Cododd balans net busnesau bach sy'n

adrodd twf referniw i -29.1%, i fyny o'r -34.9 isaf erioed ar gyfer y mynegai hwn yn Ch4 2025. Yn y cyfamser, roedd disgwyliadau busnesau bach ar gyfer twf referniw yn ystod Ch2 2026 yn -20.2.

<sup>33</sup> Mae'r FfBB yn esbonio: 'Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai wedi'i bwysoli o'r ymatebion i'r cwestiwn: "O ystyried eich perfformiad busnes cyffredinol, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o gymharu â'r tri mis blaenorol?" Mae cyfran y cwmnïau sy'n crybwyll llawer gwell yn cael y pwysiad +2, ychydig yn well +1, tua'r un peth 0, ychydig yn waeth -1, a llawer gwaeth -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn.'

<sup>34</sup> Adroddodd y FfBB nad oedd maint y sampl ar gyfer Cymru yn ddigonol ar gyfer adrodd yn gywir yn ystod Ch1 2026.

<sup>35</sup> Mynegai Busnesau Bach FfBB [www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index](https://www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index)


### Cofnododd pob sector ddarlleniad MBB negyddol yn ystod CH1 2026

Er bod rhywfaint o welliant o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, yn ystod Ch1 2026 parhaodd pob sector i gofnodi darlleniad MBB negyddol. Gydag adeiladu (-76.8), masnach cyfanwerthu

a manwerthu (-75.5), a gwasanaethau bwyd a llety (-62.6) yn parhau i fod y mwyaf difywyd. Mae Ffigur 3.2 yn dangos MBB Sectorol y FfBB ar gyfer Ch1 2026.

#### Ffigur 3.2.

##### MBB Sectorol FFBB Ch1 2026



### Yr economi ddomestig yw prif achos pryder busnesau bach a chanolig o hyd

Parhaodd yr economi ddomestig i fod y rhwystr mwyaf cyffredin rhag twf busnesau bach yn Ch1 2026, a'r baich treth, costau llafur, a'r galw o du defnyddwyr oedd y rhwystrau nesaf rhag twf a grybwyllwyd fynychaf. Cyfeiriodd nifer gynyddol o fusnesau at reoleiddio, costau cyfleustodau, a chostau tanwydd fel rhwystrau rhag twf yn ystod Ch1 2026. Mynediad at gyllid a chost cyllid oedd y rhwystrau a grybwyllwyd leiaf rhag twf.

Adroddodd *Monitor Hyder Busnes* (MHB) Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) ar gyfer Ch1 2026 hefyd welliant yn hyder busnes cyffredinol y DU i -1.1, (i fyny o -11.1 yn Ch4 2025). Mae'r ICAEW wedi awgrymu, fodd bynnag, y gallai gwelliant mwy sylweddol fod wedi cael ei effeithio'n negyddol gan y gwrthdaro yn Iran a ddechreuodd tua diwedd cyfnod eu harolwg. Mae'r mynegai yn parhau i fod ymhell islaw ei norm hanesyddol o +5.3.<sup>36</sup>

<sup>36</sup> Eglura ICAEW: 'mae canlyniadau'r arolwg yn seiliedig ar 1,000 o gyfweiliadau ffôn ymhlith Cyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU, gan sicrhau darlun cynrychioliadol o economi'r DU'. [www.icaew.com/technical/economy/business-confidence-monitor/business-confidence-monitor-national](http://www.icaew.com/technical/economy/business-confidence-monitor/business-confidence-monitor-national)

Nododd y BCM fod hyder busnes rhanbarthol yn gymysg. Er bod hyder wedi gwella ar draws pob rhanbarth yn Ch1 2026, roedd pum rhanbarth (Gogledd Orllewin Lloegr, Llundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr, yr Alban, a Swydd Efrog a Humber) mewn tiriogaeth gadarnhaol. Er bod hyder busnesau yng Nghymru wedi gwella i -3.7 (i fyny o -7.8 yn Ch4 2025), roedd yn llawer is na chyfartaledd y DU o -1.1.

Mae *Mynegai Busnesau Bach* (MBB) diweddaraf y FfBB yn deillio o arolwg a gynhaliwyd ymhlith 958 o berchnogion busnesau bach ac unig

fasnachwyr, a gynhaliwyd rhwng 10-24 o fis Mawrth 2026. Mae canlyniadau arolwg BCM ICAEW yn seiliedig ar 1,000 o gyfweliadau ffôn â Chyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU. Mae'r arolwg BCM diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Ionawr a 16 Mawrth 2026. Un o'r prif wahaniaethau o ran methodoleg rhwng yr arolygon hyn yw bod arolwg y *Mynegai Busnesau Bach* yn canolbwyntio ar fusnesau bach, a'r *Monitor Hyder Busnes* yn cynnwys cwmnïau o bob maint.

### Yn Ch1 2026 nododd 27% o fusnesau bach a chanolig y DU dwf dros y 12 mis blaenorol

Dywedodd Monitor Cyllid busnesau bach a chanolig y DU Ch1 2026<sup>37</sup> fod 27% o'r holl fusnesau bach a chanolig y DU a ymatebodd (ac eithrio rhai sy'n cychwyn) wedi crybwyll twf dros y 12 mis blaenorol, yn unol â 2025, ond yn parhau i fod lawer yn is na'r lefel cyn-bandemig nodweddiadol o tua 40%. Parhaodd y profiad i amrywio yn ôl maint busnesau bach a chanolig, gyda 47% o fusnesau yn y DU yn cyflogi 50-249 o weithwyr, 43% o'r rhai hynny yn cyflogi 10-49, 36% yn cyflogi 1-9, a 23% o'r rhai hynny heb weithwyr cyflogedig, yn profi twf yn ystod CH1 2026.

Adroddodd y Monitor Cyllid hefyd, yn ystod Ch1 2026, fod 44% yn rhestru'r hinsawdd economaidd, 40% o fusnesau bach a chanolig yn rhestru ansicrwydd gwleidyddol, a 40% yn rhestru costau uwch, fel y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i'w twf. O edrych ymlaen, roedd gan 72% o fusnesau bach a chanolig sy'n cyflogi 50-249, 57% yn cyflogi 10-49, 52% yn cyflogi 1-9 o weithwyr, a 45% heb weithwyr, gynlluniau i dyfu eu busnesau.

### Mwy o farwolaethau busnes na genedigaethau busnes yng Nghymru a'r DU

Adroddodd y SYG gyfanswm amcangyfrifedig o 78,655 o enedigaethau busnes yn y DU, a gofnodwyd fel cofrestrïadau TAW/PAYE newydd, yn ystod Ch1 2026, o'i gymharu â 83,200 o farwolaethau busnes. Mae Ffigur 3.3 yn datgelu'r amrywiad o enedigaethau a marwolaethau


busnes chwarterol yng Nghymru dros y cyfnod rhwng Ch1 2023 a Ch1 2026.<sup>38</sup> Nifer y genedigaethau busnes yng Nghymru yn Ch1 2026 oedd 2,505 (i fyny o 2,365 yn Ch4 2025), tra bod nifer y marwolaethau busnes yn ystod yr un cyfnod yn 2,910 (i fyny o 2,225 yn Ch4 2025).

<sup>37</sup> <https://www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports>

<sup>38</sup> [www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk](https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk)

**Ffigur 3.3.**

**Demograffeg Busnes Chwarterol yng Nghymru, Ch1 2023 – Ch1 2026**



**Ffynhonnell:** ONS Business Demography, Quarterly Experimental Statistics, UK<sup>39</sup>

## Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes

Adroddodd Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y SYG ar gyfer 1 i 30 Ebrill (Ton 156)<sup>40</sup> fod 25.3% o fusnesau Cymru a arolygwyd wedi cael mwy o drosiant ym mis Ebrill 2026 o'i gymharu â'r mis blaenorol (24.4% yn y DU). Roedd tua 32.3% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru yn disgwyl i drosiant gynyddu ym mis Mehefin 2026 o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 28.1%.<sup>41</sup>

Datgelodd y BICS hefyd, yn ystod mis Ebrill 2026, fod 24.9% o'r busnesau a arolygwyd yng Nghymru (22.2% yn y DU) wedi dweud bod prisiau'r nwyddau a'r gwasanaethau a werthwyd gan eu busnesau wedi cynyddu o'i gymharu â'r mis blaenorol. Yn y cyfamser, dywedodd 37.0% o'r busnesau a arolygwyd yng Nghymru

(40.4% yn y DU) fod y prisiau yr oeddent wedi'u talu am nwyddau a gwasanaethau wedi cynyddu ers y mis blaenorol.

Dywedodd tua 17.1% o gwmnïau Cymru eu bod yn disgwyl i nifer eu gweithwyr cyflogedig gynyddu ym mis Mehefin 2026 (15.7% yn y DU). O'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025, roedd 25.3% o fusnesau Cymru a arolygwyd o'r farn bod eu perfformiad wedi cynyddu (25.0% yn y DU), gyda 19.2% yn credu ei fod wedi gostwng (21.8% yn y DU). O ran disgwyliadau yn y dyfodol, roedd 34.9% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn cynyddu yn y flwyddyn i ddod (31.5% yn y DU).

<sup>39</sup> SYG, *ibid.*

<sup>40</sup> [www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukconomy](https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukconomy)

<sup>41</sup> Er mwyn cyflwyno data Cymru (a data cymharol y DU) ar gyfer y cyfnod hwn, bu'n angenrheidiol defnyddio data heb ei bwysoli sy'n dangos canlyniadau ymatebwyr arolwg y SYG yn unig, nad yw wedi'i addasu i gynrychioli nodweddion busnes ehangach Cymru (y DU).


### Ansolfedd busnes

Mae Ffigur 3.4 yn dangos tuedd ansolfedd cwmnïau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhwng mis Mai 2024 a mis Mai 2026. Roedd cyfanswm misol yr achosion ansolfedd ym mis Mai 2026 1,868 yn is na 12 mis ynghynt

pan oedd 2,231 o achosion ansolfedd. Caiff y gyfradd gyffredinol hon ei sbarduno gan ddatodiadau gwirfoddol credydwy, a oedd yn 1,423 ym mis Mai 2026, tra bod nifer y datodiadau gorfodol yn 285 yn yr un mis.

#### Ffigur 3.4.

**Ansolfedd Cwmnïau Cofrestredig Misol, Cymru a Lloegr, mis Mai 2024 - mis Mai 2026 (wedi'i addasu'n dymhorol).**



**Ffynhonnell:** Ystadegau Misol Ansolfedd Llywodraeth y DU <sup>42</sup>

Gall dyfarniadau Llys Sirol ar gyfer dyled nodi ansolfedd posibl yn y dyfodol yn rhan o duedd ehangach. Dengys data dros dro fod cyfanswm o 527,000 o hawliadau Llys Sirol yn ystod Ch1 2026,

sef cynnydd o 7% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025. O'r rhain, roedd 85% yn hawliadau ariannol, 10% yn fwy na'r un chwarter yn 2025.<sup>43</sup>

<sup>42</sup> [www.gov.uk/government/collections/company-insolvency-statistics-releases](https://www.gov.uk/government/collections/company-insolvency-statistics-releases)

<sup>43</sup> <https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly#2024>

### Cynyddodd prisiau tai yng Nghymru 3.5% yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2026


Dengys data'r SYG sy'n cofnodi pryniannau arian parod a morgais mai £212,000 oedd y pris tŷ cyfartalog yng Nghymru ym mis Ebrill 2026, sy'n cynrychioli cynnydd o 3.5% ers mis Ebrill 2025. Ar y cyfan, cynyddodd prisiau tai y DU 3.8% yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2026, a phris tŷ cyfartalog y DU ym mis Ebrill 2026 oedd £270,000, sef £10,000 yn uwch na 12 mis ynghynt.<sup>44</sup>

Adroddodd Banc Lloegr mai 65,900 oedd cymeradwyaethau morgais net ar gyfer prynu tai ym mis Ebrill 2026,<sup>45</sup> tra bod benthyca net o

ran dyled morgais gan unigolion yn £4.4 biliwn ym mis Ebrill. Yn y cyfamser, adroddodd y Banc hefyd fod y gyfradd llog effeithiol (y gyfradd llog wirioneddol a dalwyd) ar forgeisi newydd wedi cynyddu ychydig i 4.08% ym mis Ebrill (o 4.03% ym mis Mawrth), ac wedi gostwng i 3.92% ar y stoc sy'n ddyledus o forgeisi (o 3.93% ym mis Mawrth). Ar y cyfan, ni fu newid mewn cymeradwyaethau ail-forgeisio o gymharu â mis Mawrth, ond mae'n bwysig nodi mai dim ond cymeradwyaethau ail-forgeisio gyda benthyciwr gwahanol sydd yn y data hwn.

#### Ffigur 3.5.

*Mynegai Prisiau Tai Cymru a'r DU y SYG, Newid Canrannol Blynnyddol, mis Ebrill 2024 – mis Ebrill 2026*



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai y SYG<sup>46</sup>

<sup>44</sup> SYG [www.gov.uk/government/collections/uk-house-price-index-reports](https://www.gov.uk/government/collections/uk-house-price-index-reports)

<sup>45</sup> [www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest](https://www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest)

<sup>46</sup> SYG op. cit.

### Mae gweithgarwch adeiladu'r DU yn parhau i fod yn wan

Cofrestrodd *Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu y DU S&P Global*<sup>47</sup> 38.2 ym mis Mai 2026, i lawr o 39.7 ym mis Ebrill, gan aros islaw'r trothwy niwtral o 50.0 am yr ail fis ar bymtheg yn olynol. Adeiladu preswyl oedd y maes gweithgarwch gwannaf ym mis Mai, gan gofrestru 36.0, tra bod peirianeg sifil wedi cofnodi 36.2, ac adeiladau masnachol 39.0.

Yn y cyfamser, yn ei Adroddiad Polisi Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill, adroddodd Banc Lloegr fod gweithgarwch y farchnad dai wedi parhau i fod yn isel<sup>48</sup>.

### Mae'r farchnad eiddo masnachol yn dangos arwyddion cymysg o adferiad, ond buddsoddiad cyfyngedig

Mae marchnad eiddo masnachol y DU yn parhau i ddangos arwyddion cymysg yn ystod 2026, gyda rhai arwyddion o adferiad mewn lleoliadau blaenllaw ochr yn ochr â heriau parhaus. Hyd yn hyn yn 2026, mae marchnad eiddo masnachol y DU wedi profi galw cryf gan denantiaid a nifer yr unedau gwag isaf erioed, yn enwedig

yn Llundain a lleoliadau blaenllaw eraill<sup>49</sup>, ond mae marchnadoedd buddsoddi wedi cael eu llethu gan risgiau geo-wleidyddol byd-eang ac etifeddu pedair blynedd o gywiro ar ôl cynnydd mewn cyfraddau<sup>50</sup>. Mae buddsoddwyr yn fwyfwy detholus ac wedi canolbwyntio ar leoliadau gwerth uwch sydd â chysylltiadau da.<sup>51</sup>

<sup>47</sup> [www.pmi.spglobal.com/Public/Release/PressReleases](https://www.pmi.spglobal.com/Public/Release/PressReleases)

<sup>48</sup> [www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/monetary-policy-report](https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/monetary-policy-report)

<sup>49</sup> <https://www.ft.com/content/ffd4951c-b623-4ad3-bfde-562f2207c8e0?syn-25a6b1a6=1>

<sup>50</sup> <https://www.ft.com/content/56a57f36-dae2-4413-ba18-2a081ad7ef6c?syn-25a6b1a6=1>

<sup>51</sup> [www.ft.com/content/9b696d24-da71-4fdf-8738-feb792e83781](https://www.ft.com/content/9b696d24-da71-4fdf-8738-feb792e83781)

- Yn ystod Ch1 2026 cynyddodd benthyciadau gros i fusnesau bach a chanolig y DU gan brif fanciau'r stryd fawr 16% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025.
- Roedd 50% o fusnesau bach a chanolig wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn Ch1 2026.
- Y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig oedd 6.16% ym mis Ebrill 2026, i lawr o 6.79% ym mis Ebrill 2025.

## Y cyflenwad a'r galw am fenthyciadau busnes

Mae Arolwg Amodau Credyd chwarterol Banc Lloegr yn ystyried tueddiadau a datblygiadau yn amodau credyd trechaf y DU. Gofynnodd arolwg Ch1 2026 i fenthycwyr roi gwybod am eu newidiadau canfyddedig yn y cyflenwad credyd, a'r galw am gredyd, ar gyfer y tri mis a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2026, o gymharu â'r tri mis a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2025.<sup>52</sup>

Gofynnwyd i fenthycwyr hefyd am eu disgwyliadau o newidiadau hyd at ddiwedd mis Mai 2026. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 23 Chwefror a 13 Mawrth 2026 ac nid yw'n cyfrif am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny.

Dywedodd benthycwyr nad oedd argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol wedi newid yn Ch1 2026. Fodd bynnag, o'u rhannu yn ôl maint y busnes, adroddodd benthycwyr hefyd fod argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach, canolig a mawr wedi cynyddu yn Ch1 2026. Eglura Banc Lloegr efallai bod y gwahaniaeth hwn yn bodoli gan fod benthycwyr unigol yn gallu crybwyll mwy o argaeledd ar gyfer un maint o fusnes, gydag argaeledd heb newid ar gyfer busnesau o feintiau eraill ac felly ar gyfer cwmnïau yn gyffredinol. Disgwyliwyd i argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol fod yn ddigyfnewid yn Ch2 2026.

Yn y cyfamser, adroddodd benthycwyr fod y galw am fenthycia o du busnesau bach a mawr wedi cynyddu ychydig, ac nad oedd newid ar gyfer busnesau canolig yn Ch1 2026, a disgwyliar iddo gynyddu ychydig ar gyfer busnesau bach, disgwyliar ychydig o ostyngiad ar gyfer busnesau canolig, a disgwyliar iddo fod yn ddigyfnewid ar gyfer busnesau mawr yn ystod Ch2 2026.

Canfu UK Finance fod benthyciadau gros cyffredinol gan y prif fenthycwyr stryd fawr i fusnesau bach a chanolig yn ystod Ch1 2026 16% yn uwch na'r un chwarter flwyddyn yn ôl. Ar £5.3bn, roedd benthycia gros ar ei lefel uchaf ers diwedd cynlluniau benthyciadau Covid yn Ch2 2021.<sup>53</sup> Yn ôl maint busnes, roedd benthycia gros i gwmnïau bach yn Ch1 2026 wedi cynyddu 51%, tra bod cynnydd mwy cymedrol o 4% ar gyfer cwmnïau canolig.

<sup>52</sup> <https://www.bankofengland.co.uk/credit-conditions-survey/2026/2026-q1>

<sup>53</sup> [www.ukfinance.org.uk/data-analysis/data](https://www.ukfinance.org.uk/data-analysis/data)

<sup>54</sup> <https://www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports>


## Roedd 50% o fusnesau bach a chanolig wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn Ch1 2026

Canfu'r Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig fod 50% o fusnesau bach a chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod Ch1 2026<sup>54</sup>. O ran mathau o gyllid, cardiau credyd (21%) oedd y rhai a ddefnyddiwyd amlaf ymhlith busnesau bach a chanolig y DU. Yn y cyfamser, gorddrafftiau (16%) oedd y nesaf a ddefnyddiwyd amlaf, ac yna prydlesu a HP (13%), benthyciad banc neu forgais (9%), a grantiau (1%).

Dengys Ffigur 4.1 ganran y busnesau bach a chanolig ym mhob Cenedl/Rhanbarth yn y DU a ddywedodd bod argraff ei bod yn anodd sicrhau cyllid busnes yn ystod Ch1 2026. Er bod 34% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi sôn am argraff o'r fath, roedd hyn yn sylweddol is na'r 50% a adroddodd am argraff o'r fath yn y chwarter blaenorol.

### Ffigur 4.1.

*Argraff busnesau bach a chanolig rhanbarthau/cenedloedd y DU o anhawster sicrhau cyllid, Ch1 2026*



Ffynhonnell: Monitro Cyllid Busnesau Bach a Chanolig<sup>55</sup>

<sup>55</sup> [www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports](https://www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports)


## Roedd y gyfradd llog gyfartalog ar fenthyciadau busnesau bach a chanolig ym mis Ebrill 2026 yn is na 12 mis ynghynt

Dengys Ffigur 4.2 gyfradd twf fisol benthyciadau busnesau bach a chanolig, a'r gyfradd llog wedi'i phwysoli yn seiliedig ar ddata Banc Lloegr ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 i Ebrill 2026.<sup>56</sup> Cynyddodd cyfradd twf benthycia gan fusnesau bach a chanolig i 4.2% yn ystod mis Ebrill 2026,

i fyny o 3.7% ym mis Mawrth. Yn y cyfamser, cododd y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig i 6.16% ym mis Ebrill 2026, i fyny o 6.11% ym mis Mawrth 2026, ond arhosodd yn is nag ym mis Ebrill 2025.

### Ffigur 4.2.

**Cyfradd Twf Benthyciadau Busnesau Bach a Chanolig a Chyfradd Llog Effeithiol ar Fenthyciadau Busnesau Bach a Chanolig, Ebrill 2025 – Ebrill 2026, %**



Ffynhonnell: Banc Lloegr.<sup>57</sup>

— Cyfradd twf benthyciadau BBaCh

— Cyfradd llog cyfartalog ar fenthyciadau BBaCh

<sup>56</sup> Cyfartaledd misol cyfradd llog gyfartalog wedi'i bwysoli sterling banciau preswyl y DU - benthyciadau eraill, cyfradd gyfnewidiol sy'n gysylltiedig â'r Gyfradd Banc (<3 mis o ailosod) i fentrau bach a chanolig (mewn canran) heb ei haddasu'n dymhorol.

<sup>57</sup> Banc Lloegr, Arian a Chredyd  
[www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest](https://www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest)


## Cyfaint y benthycia i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru

Nododd data benthycia busnesau bach a chanolig diweddaraf UK Finance ar gyfer codau post y DU ostyngiad parhaus yn stoc y benthycia i fusnesau bach a chanolig

yng Nghymru yn ystod 2025<sup>58</sup>. Gostyngodd y cyfaint benthycia cyffredinol o oddeutu £3.855bn yn H2 2024 i £3.548bn yn H2 2025.

### Ffigur 4.3.

*Benthyciadau Busnesau Bach a Chanolig, Ardal Cod Post Cymru, H1 2022 – H2 2025*



**Ffynhonnell:** Data Cod Post Benthyciadau Busnesau Bach a Chanolig UK Finance<sup>59</sup>

Mae Ffigur 4.3 yn dangos benthyciadau busnesau bach a chanolig yn ôl ardal cod post yng Nghymru rhwng H1 2022 a H2 2025. Yn ystod H2 2025, derbyniodd busnesau bach a chanolig yn ardal cod post Abertawe £1.1bn o fenthyciadau, tra derbyniodd busnesau bach a chanolig yn ardal Llandudno ychydig dros

£896m. Yn ardal cod post Caerdydd, derbyniodd busnesau bach a chanolig dros £822m o fenthyciadau yn ystod H2 2025, gyda busnesau bach a chanolig yn ardal Casnewydd yn derbyn dros £423m, a busnesau bach a chanolig yn ardal cod post Llandrindod yn derbyn bron i £297m.

<sup>58</sup> UK Finance, Benthyciadau Busnesau Bach a Chanolig, Codau Post y DU [www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes](https://www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes)

<sup>59</sup> UK Finance <https://www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes>

## Buddsoddiadau ecwiti

Caiff buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau bach a chanolig eu hwyluso gan endidau megis cronfeydd cyfalaf menter, buddsoddwyr angel, llwyfannau cyllido torfol, corfforaethau, a chronfeydd llywodraethol, a gellir eu defnyddio ar draws gwahanol gamau datblygu busnes.<sup>60</sup>

Adroddodd *Traciwr Ecwiti 2026* blynyddol<sup>61</sup> Banc Busnes Prydain y newidiadau ym marchnadoedd dyled y DU yn ystod y flwyddyn diwethaf. Nododd yr adroddiad fod cyfanswm gwerthoedd buddsoddi ecwiti busnesau llai y DU wedi gostwng 4% yn ystod 2025. Er bod Cymru wedi gweld cynnydd o 1% yng nghyfanswm gwerth buddsoddiadau yn 2025, gostyngodd nifer cyffredinol y bargeinion yng Nghymru 45% (DU -17%) a Chymru oedd â'r ail nifer isaf o fargeinion o holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU (cyfanswm o 45). Mae'r gyfres ddata hon yn anwadal a gall nifer fach o fargeinion gwerth

mwy ddylanwadu arni. Er enghraifft, yng Nghymru mae'r cynnydd bach yng ngwerth y bargeinion yn cael ei briodoli'n rhannol i un buddsoddiad a oedd yn cyfrif am £107m o gyfanswm y £152m o fuddsoddiad ecwiti yng Nghymru yn 2025<sup>62</sup>. Er ei fod yn cynrychioli gwahanol gyfnodau adrodd. Cefnogodd y Banc fwyaf y bargeinion ecwiti ar raddfa lai (tua 85% o fargeinion yn ystod blwyddyn galendr 2025).

Mae Banc Busnes Prydain hefyd wedi nodi cynnydd bach mewn powdr sych cronfeydd dyled preifat (y cyfalaf sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau newydd) a bod llwybr lefelau powdr sych cyffredinol wedi bod ar i fyny dros y 10 mlynedd diwethaf. Ar ddiwedd 2025, roedd cronfeydd dyled preifat y DU wedi cronni £53.7bn mewn powdr sych, i fyny o £50.2bn ar ddiwedd 2024.<sup>63</sup>

## Busnesau bach a chanolig mewn gwahanol gategoriâu risg credyd

Chwiliwyd cronfa ddata FAME Bureau van Dijk o ddata Tŷ'r Cwmnïau ym mis Mehefin 2026 er mwyn helpu i ddeall nodweddion risg credyd busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Cynhyrchodd y chwiliad 103,666 o fusnesau bach a chanolig gyda sgôr credyd hysbys. Mae Ffigur 4.3 yn datgelu, o'r cyfanswm hwn, fod 5.7% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi'u

hamcangyfrif i fod yn y categori sgôr credyd risg uchaf (i lawr o 5.9% ym mis Ebrill 2026). Roedd y categori Gofalus yn cynnwys 55,395 o fusnesau bach a chanolig neu 53.4% o'r cyfanswm. Yn gyffredinol, mae'r cyfrannau hyn yn eithaf araf i newid, a diweddariadau i sgôr credyd yn dod ar wahanol gyfnodau yn ôl pryd mae data newydd yn cael ei uwchlwytho i gronfa ddata FAME.

<sup>60</sup> [https://developmentbank.wales/sites/default/files/2022-10/Equity%20Clusters%20Report\\_finalCymraeg.pdf](https://developmentbank.wales/sites/default/files/2022-10/Equity%20Clusters%20Report_finalCymraeg.pdf)

<sup>61</sup> Banc Busnes Prydain (2026). *Traciwr Ecwiti Busnesau Bach 2026*.

<https://www.british-business-bank.co.uk/sites/g/files/sovrnj166/files/2026-06/report-small-business-equity-tracker-2026.pdf?attachment>


<sup>62</sup> Banc Busnes Prydain (2026). *Traciwr Ecwiti Busnesau Bach 2026*.

<https://www.british-business-bank.co.uk/sites/g/files/sovrnj166/files/2026-06/report-small-business-equity-tracker-2026.pdf?attachment.p.43>

<sup>63</sup> Banc Busnes Prydain (2026). *Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2025/26*. [www.british-business-bank.co.uk/about/research-and-publications](http://www.british-business-bank.co.uk/about/research-and-publications)

**Ffigur 4.4.**

*Busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ôl categori graddio credyd, % (amcangyfrifon Mehefin 2026)*



**Ffynhonnell:** Cronfa Ddata FAME

Nid yw haf 2026 yn gweld lleddfu ar yr ansicrwydd sy'n wynebu busnesau yn y DU a Chymru. Er bod hyder busnesau rhyngwladol wedi gwella, mae hyn yn fregus o ystyried y tensiynau geo-wleidyddol parhaus. Yn economi'r DU, cynhaliwyd cyfraddau llog ym mis Mehefin 2026, ond mae'r economi yn dal i wynebu pwysau chwyddiant. Hefyd, mae ansicrwydd pellach yn economi'r DU yn dilyn ymddiswyddiad Syr Keir Starmer fel Prif Weinidog ym mis Mehefin 2026. Mae hyn wedi codi cwestiynau ynglŷn â blaenoriaethau tîm arweinyddol newydd, pa mor bell y bydd rheolau cyllidol dwy flynedd gyntaf y Llywodraeth Lafur yn cael eu cofleidio, neu a fydd cynnydd mewn gwariant cyhoeddus a ariennir gan ddyled.

Bu cyfnod o newid yng Nghymru hefyd, gyda llywodraeth newydd Plaid Cymru yn y Senedd, yn dilyn etholiad mis Mai 2026. Mae cynlluniau Plaid Cymru yn canolbwyntio ar dyfu a chynnal busnesau sy'n eiddo i Gymru a'r posibilrwydd o Asiantaeth Datblygu Genedlaethol newydd y bydd ei gweithgareddau yn y dyfodol yn cynnwys sicrhau buddsoddiad newydd ond hefyd helpu cwmnïau Cymru i arloesi a masnachu. Mae adroddiadau Dirnad Economi Cymru sydd ar ddod yn canolbwyntio ar faterion masnach ryngwladol, a'r sector amddiffyn, a'r cyfleoedd cysylltiedig i fusnesau Cymru. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu yn erbyn amgylchedd cyllid cyhoeddus parhaus a thyn iawn yng Nghymru yn y tymor byr. Mae cynlluniau eraill yn cysylltu â diwygio ardrethi busnes a ffurfio Comisiwn Economaidd

a Chyllidol Cymru i gefnogi gwaith datblygu a dadansoddi data economi Cymru. Er y bydd 2026 yn gweld cyhoeddi cyfrifon economaidd mwy manwl ar gyfer Cymru o ran tablau Mewnbwn-Allbwn<sup>64</sup>, mae bylchau o hyd o ran argaeledd data economaidd a fyddai'n llywio'r broses o ddatblygu modelau economaidd mwy cymhleth i gefnogi llunwyr polisi yng Nghymru.

Mae Llywodraeth newydd Cymru wedi datgan y bydd twf cynhyrchiant yn flaenllaw ac yn ganolog fel meincnod ar gyfer cynnydd economaidd. Bydd haneru'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU o fewn degawd yn allweddol i'r genhadaeth economaidd.<sup>65</sup> Mae'r ffocws hwn yn cyd-fynd â dadansoddiad economaidd diweddar sy'n tynnu sylw at y risgiau i Gymru pe bai ei thwf cynhyrchiant yn disgyn ymhellach y tu ôl i rannau eraill o'r DU.<sup>66</sup> Bydd Dirnad Economi Cymru yn cyhoeddi ymchwil yn yr hydref a fydd yn rhoi mewnwelediadau i nodweddion busnesau yng Nghymru sy'n cael eu hadnabod fel 'arwyr cynhyrchiant'. Mae busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael eu hystyried yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth newydd Cymru, nid yn unig fel asiantau ar gyfer twf cyflogaeth, ond fel asiantau ar gyfer twf cynhyrchiant ac arloesedd. Mae her i ddod hefyd i archwilio bylchau cynhyrchiant rhyng-ranbarthol o fewn sectorau unigol. Byddai hyn yn cynnwys sectorau megis Fintec a gweithgynhyrchu uwch. Yn hyn o beth, mae diddordeb cynyddol yng Nghymru hefyd yn oedran cymharol y stoc gyfalaf a sut mae hyn yn cymharu â rhannau eraill o'r DU.

<sup>64</sup> Gweler [Tablau Cyflenwi a defnyddio a thablau mewnbwn-allbwn: 2022 | LLYW. CYMRU](#)

<sup>65</sup> Gweler [New economic mission to close Wales' productivity gap with UK and boost pay | GOV.WALES](#)

<sup>66</sup> Gweler [Her Cynhyrchiant Cymru: Ffocws ar y Dyfodol - Y Sefydliad Cynhyrchiant](#)

# Atodiad 1:

## Adnoddau dethol sy'n cael eu diweddaru'n aml

Mae rhai ffigurau a grybwyllir yn yr adroddiadau chwarterol yn newid yn eithaf cyflym.

I'r darlennydd, mae'r atodiad hwn yn darparu dolenni gwe i'r ystadegau sy'n cael eu diweddaru'n aml fel y gellir cael diweddariadau cyn yr adroddiad chwarterol nesaf.

### **Diweddariadau am CDG (GDP) y DU:**

<https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/latest>

### **Dadansoddiad o farchnad lafur y DU:**

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes>

### **Data marchnad lafur ranbarthol y DU:**

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/nationallabourmarketsummarybyregions01>

## Atodiad 2:

Rhagolygon dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027

Rhagolygon CDG dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027  
(% twf blynyddol)

| Daroganwyr                                            | Dyddiad<br>y rhagolwg | 2026 CDG %<br>twf blynyddol | 2027 CDG %<br>twf blynyddol |
|-------------------------------------------------------|-----------------------|-----------------------------|-----------------------------|
| CEBR                                                  | Mehefin 2026          | 1.1                         | 1.0                         |
| Heteronomics                                          | Mehefin 2026          | 1.0                         | 0.9                         |
| NIESR                                                 | Mehefin 2026          | 0.9                         | 1.0                         |
| <b><i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas</i></b> |                       |                             |                             |
| OECD                                                  | Mehefin 2026          | 0.9                         | 1.1                         |
| Experian Economics                                    | Mehefin 2026          | 0.9                         | 1.0                         |
| Oxford Economics                                      | Mehefin 2026          | 0.7                         | 0.7                         |
| <b><i>Daroganwyr y ddinas</i></b>                     |                       |                             |                             |
| Capital Economics                                     | Mehefin 2026          | 0.9                         | 1.0                         |
| JP Morgan                                             | Mehefin 2026          | 1.2                         | 1.0                         |
| KPMG                                                  | Mehefin 2026          | 0.8                         | 1.1                         |

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-june-2026>

## Atodiad 2:

### Rhagolygon dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027

Rhagolygon dethol cyfradd diweithdra Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer economi'r DU Ch4 2026 a 2027

| Daroganwyr                                            | Dyddiad y rhagolwg | Cyfradd diweithdra AoLI Ch4 2026 | Cyfradd diweithdra AoLI Ch4 2027 |
|-------------------------------------------------------|--------------------|----------------------------------|----------------------------------|
| CEBR                                                  | Mehefin 2026       | 5.0                              | 4.9                              |
| Heteronomics                                          | Mehefin 2026       | 5.1                              | 5.0                              |
| NIESR                                                 | Mehefin 2026       | 5.5                              | 5.3                              |
| <b><i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas</i></b> |                    |                                  |                                  |
| CBI                                                   | Mehefin 2026       | 5.5                              | 5.3                              |
| Experian Economics                                    | Mehefin 2026       | 5.5                              | 5.4                              |
| Oxford Economics                                      | Mehefin 2026       | 5.7                              | 5.5                              |
| <b><i>Daroganwyr y ddinas</i></b>                     |                    |                                  |                                  |
| Capital Economics                                     | Mehefin 2026       | 5.5                              | 5.3                              |
| JP Morgan                                             | Mehefin 2026       | 5.2                              | 4.9                              |
| KPMG                                                  | Mehefin 2026       | 5.3                              | 5.3                              |

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-june-2026>

## Atodiad 2:

Rhagolygon dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027

Twf dethol mewn rhagolygon prisiau ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD)

| Daroganwyr                                            | Dyddiad y rhagolwg | MPD 2026 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %) | MPD 2027 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %) |
|-------------------------------------------------------|--------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------------|
| CEBR                                                  | Mehefin 2026       | 3.1                                     | 2.1                                     |
| Heteronomics                                          | Mehefin 2026       | 3.9                                     | 3.0                                     |
| NIESR                                                 | Mehefin 2026       | 3.2                                     | 2.2                                     |
| <b><i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas</i></b> |                    |                                         |                                         |
| OECD                                                  | Mehefin 2026       | 4.3                                     | 1.1                                     |
| Experian Economics                                    | Mehefin 2026       | 4.5                                     | 2.2                                     |
| Oxford Economics                                      | Mehefin 2026       | 4.0                                     | 1.9                                     |
| <b><i>Daroganwyr y ddinas</i></b>                     |                    |                                         |                                         |
| Capital Economics                                     | Mehefin 2026       | 3.7                                     | 2.4                                     |
| JP Morgan                                             | Mehefin 2026       | 3.7                                     | 2.0                                     |
| KPMG                                                  | Mehefin 2026       | 3.6                                     | 2.3                                     |

Ffynhonnell: : <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-june-2026>

## Atodiad 2:

Rhagolygon dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027

Twf dethol mewn rhagolygon prisiau ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM)

| Daroganwyr                                            | Dyddiad y rhagolwg | MPM 2026<br>(Ch4 ar Ch4<br>flwyddyn yn ôl, %) | MPM 2027<br>(Ch4 ar Ch4<br>flwyddyn yn ôl, %) |
|-------------------------------------------------------|--------------------|-----------------------------------------------|-----------------------------------------------|
| CEBR                                                  | Mehefin 2026       | 4.1                                           | 3.2                                           |
| Beacon Economic Forecasting                           | Mehefin 2026       | 4.3                                           | 4.1                                           |
| NIESR                                                 | Mehefin 2026       | 5.3                                           | 3.6                                           |
| <b><i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas</i></b> |                    |                                               |                                               |
| Heteronomics                                          | Mehefin 2026       | 4.5                                           | 3.7                                           |
| Experian Economics                                    | Mehefin 2026       | 5.4                                           | 2.6                                           |
| Oxford Economics                                      | Mehefin 2026       | 4.5                                           | 3.2                                           |
| <b><i>Daroganwyr y ddinas</i></b>                     |                    |                                               |                                               |
| Capital Economics                                     | Mehefin 2026       | 4.9                                           | 3.6                                           |
| HSBC                                                  | Mehefin 2026       | 5.0                                           | 3.3                                           |
| UBS                                                   | Mehefin 2026       | 3.8                                           | 2.5                                           |

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-june-2026>



**Dirnad Economi Cymru**  
**Economic Intelligence Wales**

**[bancdatblygu.cymru](http://bancdatblygu.cymru)**  
**[developmentbank.wales](http://developmentbank.wales)**

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn [bancdatblygu.cymru](http://bancdatblygu.cymru).